Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rhewi'r Trothwy ar gyfer Ad-daliadau Cynllun 2 (Blynyddoedd Ariannol 2027-2030)

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cefndir y polisi

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi benthyciadau myfyrwyr Cynllun 2 i fenthycwyr sydd, fel arfer, yn byw yng Nghymru, a hefyd i rai myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas â dilyn cwrs gradd addysg uwch sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae'r benthycwyr yn dechrau ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr ar ôl i'w henillion fynd uwchlaw trothwy penodol, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (SI 2009/470). Caiff benthyciadau myfyrwyr eu grwpio'n bum math o "Gynllun" ad-dalu. Mae gan bob un o'r rhain eu hamodau a'u telerau eu hunain, yn cynnwys cyfnodau ad-dalu, trothwyon, a chyfraddau llog.

Mae benthycwyr o Gymru (israddedigion) yn ad-dalu o dan delerau Cynllun 2. Mae'r telerau hyn yn berthnasol hefyd i fenthycwyr presennol o Loegr, ond bydd benthycwyr newydd o Loegr yn ad-dalu o dan delerau Cynllun 5.

O dan y rheoliadau, caiff trothwy ad-dalu Cynllun 2 ei gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant (RPI). Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, y trothwy yw £29,385. Dim ond Gweinidogion Cymru a all osod trothwy Cynllun 2 ar gyfer benthycwyr o Gymru.

Hefyd, mae cyfradd llog uwch ac is yn berthnasol i fenthyciadau myfyrwyr Cynllun 2. Mae'r gyfradd hon yn pennu'r gyfradd llog amrywiol sy'n daladwy ar fenthyciadau myfyrwyr, ar ôl gorffen astudio, ar sail lefel yr incwm. Mae trothwy'r gyfradd llog isaf yn cyd-fynd â'r trothwy ad-dalu (islaw'r trothwy hwn, bydd llog yn cronni ar RPI ar ôl i'r benthyciwr orffen astudio). Bydd trothwy'r gyfradd llog uwch yn £52,885 ym Mlwyddyn Ariannol 2026-27 (uwchlaw'r trothwy hwn, bydd llog yn cronni ar RPI+3% ar ôl gorffen astudio).

Yn hanesyddol, mae Cymru wedi addasu'i throthwyon yn unol â Llywodraeth y DU. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu systemau gweithredol sy'n gyffredin â Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) ac mae'n helpu i osgoi gwahaniaethau gweinyddol, costau cyflawni uchel, a risgiau'n ymwneud â rheolau cymharedd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi mewn perthynas â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Newid yn y polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, sef:

- Rhewi trothwy ad-dalu benthyciadau myfyrwyr Cynllun 2 ar £29,385 am dair blynedd (Blwyddyn Ariannol 2027-28 hyd at Flwyddyn Ariannol 2029-30) yn hytrach na'i gynyddu'n flynyddol yn unol ag RPI.
- Rhewi'r trothwyon cyfraddau llog amrywiol sy'n gysylltiedig â Chynllun 2, yn cynnwys rhewi trothwy'r gyfradd llog uchaf ar £52,885, dros yr un cyfnod.

Rhagdybir y byddai'r trothwy blynyddol ar gyfer Cynllun 2 yn ailddechrau uwchraddio (yn unol ag RPI) o fis Ebrill 2030 ymlaen.

Dadansoddi'r Effeithiau, Argaeledd Data a Modelu

Gan nad yw setiau data ad-dalu yn cynnwys rhyw lawer o ddata am nodweddion gwarchodedig, tasg anodd yw asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i fodelu effeithiau gwahaniaethol yn fanwl. Dibynnir ar waith modelu dosbarthiadol Llywodraeth y DU i ddarparu rhagolygon am effeithiau ad-daliadau misol, blynyddol a gydol oes mewn perthynas â rhewi'r trothwy.

Mae'r effeithiau ar ymddygiad yn parhau i fod yn ansicr. Mae'r drefn ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn gweithredu dros gyfnod o 30 mlynedd, a thystiolaeth gyfyngedig yn unig a geir i ddangos bod penderfyniadau myfyrwyr o Gymru yn gysylltiedig â newidiadau mewn telerau ad-dalu neu ad-daliadau disgwyliedig gydol oes.

Yn yr un modd, tystiolaeth gyfyngedig yn unig a geir ynglŷn â'r effaith a gaiff economeg gymdeithasol a chostau byw yn benodol ar fenthycwyr o Gymru sy'n ad-dalu ar hyn o bryd. Ond mae modd dwyn casgliadau ar sail ymchwil berthnasol yn ymwneud ag economeg gymdeithasol a phwysau costau byw sy'n deillio o ddadansoddiadau ehangach ar lefel aelwydydd ledled Cymru a'r DU.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu i ddeall yr effeithiau posibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Cyd-destun

Ar 31 Awst 2025, roedd gan 175,928 o fenthycwyr o Gymru fenthyciad myfyrwyr Cynllun 2 gyda balans heb ei dalu. O blith y rhain, mae 164,946 o fenthycwyr o Gymru mewn statws ad-dalu ar hyn o bryd.

Hefyd, amcanestynnir y ceir 27,112 o fenthycwyr newydd o Gymru (amser llawn a rhan-amser gyda'i gilydd) ym mlwyddyn academaidd 2025/26, 28,764 yn 2026/27, 28,641 yn 2027/28, 28,583 yn 2028/29 a 28,612 yn 2029/30. Pe bai'r myfyrwyr hyn yn cael benthyciad myfyrwyr, byddent yn ad-dalu o dan delerau Cynllun 2.

Yn ôl data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, balans cyfartalog benthyciadau i fyfyrwyr o Gymru ar ôl iddynt gyrraedd statws ad-dalu yn 2024/25 oedd £39,470. Yn 2016/17, pan ddaeth y garfan ôl-2012 yn gyfrifol am wneud ad-daliadau o dan Gynllun 2 am y tro cyntaf, y balans cyfartalog ar gyfer benthycwyr o Gymru oedd £19,140.

Y swm blynyddol cyfartalog a ad-dalwyd gan fenthycwyr o Gymru yn 2024/25 oedd £990 y pen.

Dadansoddi'r Effeithiau

Effeithiau ar Enillion Benthycwyr

Effeithiau'n ymwneud â thelerau Cynllun 2

Heb rewi'r trothwy, rhagwelir y bydd trothwy ad-dalu Cynllun 2 yn codi i £30,590 ym mis Ebrill 2027. Wrth ei rewi, bydd y trothwy'n aros ar £29,385 tan fis Ebrill 2030; yna, gellir rhagdybio y bydd yn codi i £30,210 yn unol â rhagolygon RPI y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Mae'r trothwy llog isaf yn parhau i gyd-fynd â'r trothwy ad-dalu. Byddai'r trothwy llog uchaf, yn hytrach na chodi i £55,055 yn 2027, yn aros ar £52,885 tan 2030.

Cesglir ad-daliadau trwy gyfrwng systemau Talu Wrth Ennill (PAYE) Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi – sef systemau nad ydynt wedi'u datganoli. Felly, byddai unrhyw wahaniaeth rhwng trothwyon Cynllun 2 Cymru a Lloegr yn golygu y byddai'n rhaid i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr greu trefniadau gweinyddol ar wahân, gan arwain at risg weithredol a chostau sylweddol o ran datblygu TG.

Effeithiau byrdymor ar enillion

Yn achos benthycwyr o Gymru sy'n ennill llai na £29,385, ni fyddant yn dioddef unrhyw effaith o ganlyniad i rewi'r trothwy. Yn achos benthycwyr o Gymru sy'n ennill mwy na'r trothwy ond sydd ag incwm sy'n aros yn statig, ni fyddant yn gweld unrhyw gynnydd (hynny yw, ni fydd eu had-daliadau misol yn codi); ond byddent wedi elwa ar ad-daliadau is yn absenoldeb unrhyw rewi.

Yn achos benthycwyr o Gymru y bydd eu henillion yn codi, bydd y rhewi'n arwain at y canlynol:

- Cynyddu nifer y benthycwyr o Gymru a fydd y gorfod dechrau ad-dalu
- Cynyddu'r ad-daliadau misol (sef cynnydd o £9 y mis, £108.45 y flwyddyn), gan leihau eu cyflog net.

Mae'r cynnydd canrannol uchaf i'w weld yn achos benthycwyr o Gymru y mae eu henillion yn agos iawn at y trothwy. Mae'r ganran yn gostwng wrth i'r incwm godi. Er enghraifft:

- Cyflog o £33,000: bydd yr ad-daliadau'n codi o £18 i £27 y mis (+50%)
- Cyflog o £50,000: bydd yr ad-daliadau'n codi o £145 i £154 y mis (+6%)

Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU, go brin y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar benderfyniadau benthycwyr i weithio, o gofio'r effeithiau ymylol bach.

Yn Nhabl 1, ceir cymhariaeth fanwl o ad-daliadau misol ym Mlwyddyn Ariannol 2027-28 o dan y ddwy sefyllfa – hynny yw, rhewi'r trothwy o gymharu â pheidio â rhewi'r trothwy.

Tabl 1: Ad-daliadau misol ar gyfer benthyciadau Cynllun 2 ar gyflogau gwahanol, o dan y system gyfredol ac ar ôl rhewi'r trothwy ym Mlwyddyn Ariannol 2027-28.

Cyflog blynyddol	Ad-daliadau misol ar ôl rhewi'r trothwy	Ad-daliadau misol gyda throthwy o £30,590 (heb rewi'r trothwy)	Gwahaniaeth (%)
£29,000 (ac is)	£0	£0	-
£30,000	£4	£0	£4
£30,590	£9	£0	£9
£33,,000	£27	£18	£9 / 50%
£35,000	£42	£33	£9 / 27%
£40,000	£79	£70	£9 / 13%
£50,000	£154	£145	£9 / 6%

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Effeithiau hirdymor ar enillion (gydol oes)

Bydd rhewi'r trothwy ad-dalu ym Mlwyddyn Ariannol 2027/28 yn effeithio ar flynyddoedd y dyfodol, oherwydd bydd yr uwchraddio dilynol yn ailddechrau o linell sylfaen is ym Mlwyddyn Ariannol 2030/31. Bydd hyn yn esgor ar ad-daliadau uwch dros amser (gweler Tabl 2), gan arwain yn y pen draw at gynyddu'r cyfanswm a gaiff ei ad-dalu dros gyfnod llawn y benthyciad, sef 30 mlynedd.

Tabl 2: Trothwy ad-dalu Cynllun 2, dan y system gyfredol a phe bai'r trothwy'n cael ei rewi ym Mlwyddyn Ariannol 27-28, a'r effaith fwyaf ar ad-daliadau blynyddol (mewn termau enwol).

Blynyddoedd Ariannol	Llinell sylfaen	Ar ôl rhewi'r trothwy	Uchafswm y cynnydd blynyddol mewn ad-daliadau (mewn termau enwol)
2026-27	£29,385	£29,385	£0
2027-28	£30,590	£29,385	£108.45
2028-29	£31,480	£29,385	£188.55
2029-30	£32,330	£29,385	£265.05
2030-31	£33,240	£30,210	£272.70
2031-32	£34,205	£31,090	£280.35
2032-33	£34,960	£31,775	£286.65
2033-34	£35,730	£32,475	£292.95

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Cafodd trothwy ad-dalu Cynllun 2 ei rewi yn y gorffennol. Cafodd trothwy Cynllun 2 ei rewi rhwng Blwyddyn Ariannol 2022/23 a Blwyddyn Ariannol 2024/25; yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd y trothwy ar £27,295 cyn cynyddu i £28,470 ym Mlwyddyn Ariannol 2025/26. Felly, byddai benthycwyr o Gymru a chanddynt fenthyciadau Cynllun 2 cyn

Blwyddyn Ariannol 2022/23 yn mynd trwy ail gyfnod estynedig lle byddai'r trothwy'n cael ei rewi.

Yn Nhabl 3, ceir crynodeb o'r effeithiau gydol oes canlyniadol pe bai'r trothwy ad-dalu'n cael ei rewi ym Mlwyddyn Ariannol 2027/28. Bydd ad-daliadau gydol oes cyfartalog yn cynyddu oddeutu £2,200 (tua 7%) o gymharu â sefyllfa pan na fyddai'r trothwy'n cael ei rewi. Gwelir y cynnydd cyfartalog mwyaf ymhlith enillwyr 'canol i uchel', gyda benthycwyr yn y chweched, seithfed a'r wythfed degradd yn gweld cynnydd o £3,700, £3,900 a £3,700. Enillwyr 'isel i ganol' (e.e. degraddau 3 a 4) a fydd yn gweld y cynnydd cyfrannol mwyaf, sef oddeutu 18%. Dim ond cynnydd o 1% y bydd yr enillwyr uchaf (degradd 10) yn ei weld mewn ad-daliadau gydol oes.

Mewn rhai achosion, bydd yr enillwyr uchaf yn ad-dalu rhywfaint yn gyflymach gan fod talu ynghynt yn arwain at gronni llai o log.

Tabl 3: Effeithiau dosbarthiadol allweddol y polisi arfaethedig ar garfan benthycwyr Blwyddyn Academaidd 2022/23, yn ôl degradd enillion gydol oes (yn enillion Blwyddyn Ariannol 2025-26)

		Ad-daliadau Gydol Oes Cyfartalog (prisiau Blwyddyn Ariannol 25-26)				**Cyfran y benthyciad a ad-delir (prisiau Blwyddyn Ariannol 25-26)**			**Blynyddoedd canolrifol hyd nes ad-dalu**		
			Ar ôl y polisi	**Effaith**		**Llinell sylfaen**	**Ar ôl y polisi**	**Effaith**	**Llinell sylfaen**	**Ar ôl y polisi**	**Effaith**
				£	**%**			**pwyntiau canran**			**blynyddoedd**
Y garfan gyfan		**£30,600**	**£32,700**	**£2,200**	**7%**	**59%**	**63%**	**4**	**30**	**30**	**0**
Cyfartaledd											
Degradd enillion gydol oes[1]	1	£2,100	£2,200	*£100*	*5%*	4%	*4%*	*0*	30	30	*0*
	2	£4,300	£4,800	*£500*	*12%*	8%	*9%*	*1*	30	30	*0*
	3	£8,000	£9,400	*£1,300*	*18%*	16%	*18%*	*3*	30	30	*0*
	4	£12,800	£15,000	*£2,200*	*17%*	25%	*29%*	*4*	30	30	*0*
	5	£18,000	£20,800	*£2,800*	*16%*	35%	*41%*	*5*	30	30	*0*
	6	£24,900	£28,600	*£3,700*	*15%*	48%	*55%*	*7*	30	30	*0*
	7	£34,600	£38,500	*£3,900*	*11%*	66%	*74%*	*7*	30	30	*0*
	8	£46,900	£50,600	*£3,700*	*8%*	92%	*99%*	*7*	30	30	*0*
	9	£61,500	£64,000	*£2,500*	*4%*	117%	*122%*	*5*	27	26	*-1*
	10	£67,200	£67,700	*£500*	*1%*	129%	*130%*	*1*	16	16	*0*

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

[1] Cyfrifir degraddau enillion ar gyfer israddedigion sy'n cymryd benthyciadau myfyrwyr yn unig; nid ydynt yn adlewyrchu'r boblogaeth ehangach.

[2] Cymerir rhagolygon ynglŷn ag enillion gydol oes o'r system modelu benthyciadau myfyrwyr, maent wedi'u seilio ar ddata'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, a byddant yn wahanol i ragolygon a seilir ar ddata Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO) neu ffynonellau eraill. Gellir cael manylion am y fethodoleg yma: Student loan forecasts for England: methodology - Explore education statistics - GOV.UK.

Amrywio rhanbarthol

Mae graddedigion o Gymru yn llai tebygol o gael enillion sydd uwchlaw'r trothwy ad-dalu o gymharu â graddedigion yn Llundain neu'r Alban ymhen blwyddyn, 5 mlynedd a 10 mlynedd ar ôl graddio. Er enghraifft (Tabl 4):

- Blwyddyn ar ôl graddio: mae 56% o raddedigion Cymru yn ennill llai na £26,800 (o gymharu â 48% o raddedigion yn Llundain)
- 10 mlynedd ar ôl graddio: mae 31% o raddedigion Cymru yn ennill llai na £26,800 (o gymharu ag 17% yn Llundain)

Golyga hyn y daw cynnydd uniongyrchol mewn ad-daliadau i ran canran is o raddedigion Cymru; ond bydd y rhai a fydd yn profi cynnydd yn fwy tebygol o fod yn enillwyr isel, gan atgyfnerthu'r effeithiau cyfrannol a nodwyd yn gynharach.

Tabl 4: Cyfran y graddedigion sydd â'u domisil yn y DU (Blwyddyn Academaidd 2022/23) ac sy'n ennill islaw £26,800 ymhen blwyddyn, pum mlynedd a deg mlynedd ar ôl graddio ym mlwyddyn dreth 2023-24. Cwmpas – Graddedigion sydd mewn cyflogaeth barhaus yn unig ym mlwyddyn dreth 2023-24.

Blynyddoedd ar ôl graddio	Band incwm	Llundain	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	Pawb
Blwyddyn ar ôl graddio	Hyd at £26,799	48%	48%	56%	56%	53%
5 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	19%	29%	38%	42%	29%
10 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	17%	24%	31%	34%	26%

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Sensitifrwydd enillion yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol

Prydau Ysgol am Ddim

Mae graddedigion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o ennill islaw'r trothwy ad-dalu ymhen blwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd ar ôl graddio, o gymharu â'u cyfoedion nad oeddynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gweler Tabl 5). Awgryma hyn y gallai benthycwyr o Gymru a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddioddef llai o effaith yn y tymor byr, gan eu bod yn fwy tebygol o aros islaw'r trothwy ad-dalu; ond mae eu henillion gydol oes is yn golygu y gallent barhau i brofi effeithiau ad-dalu cyfrannol mwy dros gyfnod llawn y benthyciad.

Tabl 5: Cyfran y graddedigion gradd gyntaf sydd â'u domisil yn y DU (dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs) ac sy'n ennill islaw £26,800 yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim ymhen blwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd ar ôl graddio ym mlwyddyn dreth 2023-24. Cwmpas – Graddedigion sydd mewn cyflogaeth barhaus yn unig ym mlwyddyn dreth 2023-24.

Blynyddoedd ar ôl graddio	Band incwm	Yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim	Heb fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim	Ni wyddys	Pawb (dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs)
Blwyddyn ar ôl graddio	Hyd at £26,799	63%	57%	51%	57%
3 blynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	46%	37%	33%	38%
5 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	36%	27%	24%	27%

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Grwpiau POLAR (Ardaloedd Cyfranogiad Isel)

Mae graddedigion o ardaloedd cyfranogiad isel POLAR yn cyfateb i unigolion a fagwyd mewn cymdogaethau lle na welwyd llawer o bobl ifanc yn dilyn addysg uwch yn hanesyddol. Mae graddedigion o ardaloedd 1-3 POLAR yn fwy tebygol o ennill islaw'r trothwy ad-dalu (gweler Tabl 6), gan gyfyngu drachefn ar yr effeithiau byrdymor ond gan gynyddu effeithiau gydol oes cyfrannol eu had-daliadau.

Tabl 6: Cyfran y graddedigion gradd gyntaf sydd â'u domisil yn y DU (dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs) ac sy'n ennill islaw £26,800 yn ôl cwintel POLAR4 ymhen blwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd ar ôl graddio ym mlwyddyn dreth 2023-24. Cwmpas – Graddedigion sydd mewn cyflogaeth barhaus yn unig ym mlwyddyn dreth 2023-24.

Blynyddoedd ar ôl graddio	Band incwm	Cwintel 1	Cwintel 2	Cwintel 3	Cwintel 4	Cwintel 5	Pawb (dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs)
Blwyddyn ar ôl graddio	Hyd at £26,799	63%	61%	58%	56%	52%	57%
5 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	37%	33%	31%	27%	21%	27%
10 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	30%	28%	25%	23%	20%	24%

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Sensitifrwydd enillion yn ôl cymhwyster a chanlyniadau'r farchnad lafur

Dengys tystiolaeth fod canlyniadau cyflogaeth yn amrywio'n fawr yn ôl lefel cymwysterau, a bod 55% o oedolion nad oes ganddynt gymwysterau yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar o gymharu â 15% o oedolion a chanddynt gymwysterau hyd at Lefelau 4-6. Ymhellach, dengys ymchwil fod enillion ariannol sy'n deillio o addysg uwch yn amrywio'n fawr, ac y byddai 1 o bob 5 o raddedigion wedi bod yn well yn ariannol pe na baent wedi dilyn addysg uwch, tra mae 1 o bob 10 yn cyflawni enillion ariannol gydol oes uchel iawn.

O'r herwydd, graddedigion sy'n ymuno â llwybrau is eu henillion, yn cynnwys nifer o raddedigion o grwpiau dan anfantais, yw'r rhai sydd fwyaf sensitif i rewi'r trothwy ad-dalu.

Effeithiau ar Fyfyrwyr a Chyfranogi

Effeithiau ymddygiadol a phenderfyniadau myfyrwyr

Ni fydd yna unrhyw effaith uniongyrchol ar fyfyrwyr newydd, oherwydd dim ond ar ôl i unigolion gyrraedd statws ad-dalu y bydd rhewi'r trothwy ad-dalu yn effeithio arnynt.

O ystyried yr effeithiau gydol oes a welir yn Nhabl 3 a'r enillion ariannol cyfartalog uwch sy'n gysylltiedig â chymwysterau uwch, disgwylir na fydd rhewi'r trothwy yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau unigolion i astudio cymwysterau lefel uwch. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth Llywodraeth y DU yn dangos nad yw darpar fyfyrwyr yn sensitif iawn i gostau hirdymor eu hastudiaethau a'u bod, yn gyffredinol, yn rhoi mwy o bwys ar y manteision ehangach sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yn hytrach nag ar y telerau ad-dalu.

Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i awgrymu bod y cyfnod blaenorol pan rewyd y trothwy (sef rhwng Blwyddyn Ariannol 2022/23 a Blwyddyn Ariannol 2024/25 ar gyfer benthyciadau myfyrwyr Cynllun 2) wedi effeithio ar gyfranogi mewn addysg uwch. Roedd nifer y cofrestriadau gan israddedigion a oedd yn byw yn barhaol yng Nghymru yn 2024/25 3% yn is na'r nifer yn 2021/22. Er y gallai nifer o ffactorau fod wedi effeithio ar y gostyngiad hwn, mae'n bosibl y gallai newidiadau mewn telerau ad-dalu (megis rhewi'r trothwy) ddatgymell rhai darpar fyfyrwyr.

Mae rhai grwpiau'n tueddu i fod yn fwy amharod i fynd i ddyled na grwpiau eraill, yn cynnwys menywod, dysgwr hŷn, dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, myfyrwyr ag anabledd a myfyrwyr o aelwydydd incwm isel. Ond o ystyried yr effaith gymharol fach ar ad-daliadau misol, y cyfnod ad-dalu maith, a'r enillion ariannol cyfartalog uwch sy'n gysylltiedig ag addysg uwch, go brin y byddai rhewi'r trothwy yn effeithio'n fawr ar benderfyniadau'r mwyafrif o ddarpar fyfyrwyr i gyfranogi mewn addysg uwch.

Er bod y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu lefelau ymateb isel at ei gilydd mewn perthynas â newidiadau mewn trothwyon ad-dalu, ceir tystiolaeth gadarn gyfyngedig yn ymwneud ag effeithiau ymddygiadol sy'n deillio o ddiwygio cyllid myfyrwyr yn fwy

cyffredinol. O ganlyniad, ni ellir casglu gyda sicrwydd y byddai rhewi'r trothwy ad-dalu yn cael dim effaith o gwbl ar gyfranogi mewn addysg uwch.

Anghydraddoldebau o ran cyfranogi a chamu ymlaen

Llai yn ymuno ag addysg uwch pan yn 18 oed

Dengys tystiolaeth fod llai o unigolion yng Nghymru yn cyfranogi mewn addysg uwch pan maent yn 18 oed o gymharu â chyfartaledd y DU; y gyfradd ar gyfer ymuno ag addysg uwch pan yn 18 oed yw 29.2% yng Nghymru, o gymharu â 41.2% ledled y DU. Hefyd, mae Cymru yn cofnodi mwy o bobl ifanc NEET (rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) o gymharu â gweddill y DU. Golyga'r gwahaniaethau hyn fod y rhai nad ydynt yn camu ymlaen i addysg uwch ac a ddaw o gefndiroedd dan anfantais eisoes â thrywydd addysgol gwannach o bosibl, gan gyfrannu at enillion gydol oes is a mwy o sensitifrwydd i newidiadau mewn trothwyon ad-dalu.

Anghydraddoldebau mewn perthynas â Phrydau Ysgol am Ddim

Dengys tystiolaeth mai cefndir economaidd-gymdeithasol yw'r penderfynydd cryfaf o hyd o ran camu ymlaen i addysg drydyddol. O blith dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, dim ond 39% sy'n camu ymlaen i gymwysterau Lefel 3 o gymharu â 72% o ddysgwyr nad oeddynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, gan gyfyngu ar fynediad at lwybrau uchel eu henillion a chan gyfrannu at enillion gydol oes is ymhlith grwpiau dan anfantais. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn atgyfnerthu'r tebygolrwydd y bydd cynnydd ad-dalu gydol oes uwch yn dod i ran graddedigion incwm isel pe bai'r trothwy'n cael ei rewi.

Bwlch cyfranogi rhwng y ddau rywedd

Yng Nghymru y ceir y bwlch cyfranogi mwyaf mewn addysg uwch rhwng y ddau rywedd ledled y DU. Mae menywod yn llawer mwy tebygol o ddilyn addysg uwch, tra mae dynion yn llawer llai tebygol o wneud hynny. Mae hyn yn atgyfnerthu'r tebygolrwydd y bydd rhewi'r trothwy yn effeithio mwy ar fenywod, yn enwedig menywod sy'n raddedigion incwm isel.

Cyrhaeddiad a ysgogir gan lwybrau ac effeithiau ar enillion

Mae amddifadedd yn bwysig iawn o ran rhagweld pwy fydd yn camu ymlaen i addysg drydyddol. Mewn adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, darganfuwyd bod dysgwyr o ardaloedd amddifad yn fwy tebygol o ddilyn llwybrau galwedigaethol neu lwybrau lefel is. Golyga hyn y bydd nifer o ddysgwyr yn meddu ar gyrhaeddiad is ac y byddant yn ymuno â'r degraddau hynny y bydd rhewi'r trothwy yn effeithio fwyaf arnynt.

Mae twf mewn llwybrau galwedigaethol addysg bellach, yn enwedig ar Lefelau 1 a 2, yn golygu y bydd nifer o ddysgwyr (gyda nifer anghymesur ohonynt yn dod o grwpiau amddifad neu grwpiau lleiafrifol) yn ymuno â llwybrau is eu henillion yn y farchnad lafur.

Mae'r patrymau hyn yn atgyfnerthu'r canfyddiad mai graddedigion incwm is, na chânt eu cynrychioli'n ddigonol mewn llwybrau uwch eu henillion, a fydd yn profi'r effeithiau gydol oes cyfrannol mwyaf pe bai'r trothwy ad-dalu'n cael ei rewi.

Pwysau costau ar fyfyrwyr

I fyfyrwyr o Gymru a ddaw o aelwydydd incwm isel, dim ond 63% o'r costau byw disgwyliedig i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n byw oddi cartref y mae cymorth cynhaliaeth yn eu talu. Mae pwysau costau byw, gan gynnwys cynnydd mewn costau tai a thrafnidiaeth, yn golygu bod myfyrwyr yn fwy dibynnol ar waith rhan-amser a chymorth caledi. Efallai y bydd pwysau o'r fath yn llywio canfyddiadau darpar fyfyrwyr mewn perthynas â fforddiadwyedd, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn dioddef anfantais, gan eu gwneud yn fwy sensitif o bosibl i gostau addysg uwch a newidiadau mewn telerau ad-dalu.

Gallai unrhyw ganfyddiad negyddol ddylanwadu ar benderfyniadau darpar fyfyrwyr i gymryd rhan mewn addysg bellach; ond awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael fod hyn yn annhebygol o ddigwydd.

Cyd-destun Economaidd-gymdeithasol Trawsbynciol

Mae incwm gwario aelwydydd Cymru ymhlith yr isaf yn y DU, ochr yn ochr â thlodi parhaus, cynnydd ym mhrisiau bwyd ac ynni, ac effeithiau anghymesur ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at heriau ariannol mawr a ddaw i ran aelwydydd incwm isel a grwpiau agored i niwed:

- **Adroddiad Llesiant Cymru 2025:** Incwm gwario aelwydydd Cymru yw'r isaf ond un yn y DU; rhwng 2021-2024, bu 22% o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Hefyd, yng Nghymru y ceir y gyfran fwyaf o bobl sy'n ennill islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- **Briff Tŷ'r Cyffredin ar gostau byw cynyddol yn y DU**: Rhwng Mai 2021 a Mai 2024, cafwyd cynnydd o 30.6% mewn prisiau bwyd – yn y gorffennol, cymerwyd 13 mlynedd i brisiau bwyd godi ar yr un raddfa.
- **Rhagolygon y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer economi'r DU yn 2025**: Ni fydd safonau byw ar gyfer yr aelwydydd sydd yn y 40% isaf yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn 2022 hyd nes y flwyddyn 2027.
- **Cipolwg Sefydliad Bevan ar dlodi yn 2024**: Mae 15% o aelwydydd Cymru yn cael anhawster i fforddio'r pethau sylfaenol. Rhentwyr, pobl anabl, rhieni, a phobl sy'n derbyn budd-daliadau yw'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- **Ymchwil y Senedd ar effaith yr argyfwng costau byw ar bobl anabl**: Dengys ymchwil fod bywyd yn llawer drytach i bobl anabl a'u teuluoedd. Maent yn wynebu costau uwch ar gyfer pethau hanfodol megis gwres, yswiriant, cyfarpar arbenigol, trafnidiaeth hygyrch a therapïau. Mae nifer ohonynt yn dibynnu ar dacsis neu

gerbydau sydd wedi'u haddasu, ac yn aml maent yn talu mwy am nwy a thrydan. Yn aml, maent angen gwres ychwanegol er mwyn cynnal eu hiechyd, ac maent angen trydan ychwanegol ar gyfer defnyddio technoleg gynorthwyol a chyfarpar hanfodol megis offer codi, dyfeisiau anadlu, cadeiriau modur a dyfeisiau monitro. Mae pobl anabl yng Nghymru yn ennill £1.75 yr awr yn llai na gweithwyr nad ydynt yn anabl (bwlch cyflog o 12.2%).

- **Ymchwil y Senedd ar effaith costau byw ar fenywod**: Mae menywod, yn enwedig rhai o leiafrifoedd ethnig a rhieni unigol, yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi anniogel sy'n talu cyflogau isel.
- **Y Sefydliad Cyflog Byw (2024)**: Mae menywod bron 50% yn fwy tebygol na dynion o gael cyflog isel; mae 18.7% o swyddi menywod islaw'r Cyflog Byw o gymharu ag 12.6% o ddynion. Mae gweithwyr rhan-amser deirgwaith yn fwy tebygol o gael cyflog isel.
- **Sefydliad Joseph Rowntree (2023)**: Mae tlodi'n effeithio'n anghymesur ar aelwydydd ethnig lleiafrifol; daw tlodi i ran aelwydydd du ar raddfa sydd deirgwaith yn fwy na'u cyfran o'r boblogaeth.
- **Ymddiriedolaeth Runnymede (2024)**: Mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi cymharol; mae'r bwlch cyflog yn £1.93 yr awr.

Dengys tystiolaeth fod pwysau costau byw ac incwm isel yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, pobl anabl, a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol – sef grwpiau sy'n cyfateb i gyfran sylweddol o fyfyrwyr addysg uwch. Mae'r grwpiau hyn yn gorgyffwrdd i raddau helaeth â grwpiau sy'n fwy tebygol o dderbyn cymorth i fyfyrwyr, grwpiau sy'n fwy tebygol o gael enillion isel ar ôl graddio a grwpiau sy'n fwy tebygol o ddioddef effeithiau dirywgar pe bai'r trothwy'n cael ei rewi.

Casgliad

Mae rhewi'r trothwy ad-dalu yn bolisi dirywgar, gyda'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn syrthio ar fenthycwyr o Gymru a chanddynt enillion isel a chanol, a chyda'r enillwyr uchaf yn dioddef newidiadau ymylol yn unig. Mae'r effeithiau hyn yn arbennig o amlwg yn achos benthycwyr o Gymru y bydd eu henillion yn agos at y trothwy ac a fydd yn gorfod dechrau ad-dalu'n gynharach yn eu gyrfaoedd. Mae'r effeithiau byrdymor yn gyfyngedig i fenthycwyr y bydd eu henillion yn aros islaw'r trothwy, ond mae'r effaith gyfrannol hirdymor i'w gweld fwyaf yn achos y rhai a fydd yn dilyn llwybrau cyflogaeth is eu henillion.

I nifer o fenthycwyr presennol, bydd y rhewi hwn yn cynrychioli'r eildro i'r trothwy gael ei rewi, yn dilyn y rhewi a ddigwyddodd rhwng Blwyddyn Ariannol 2022/23 a Blwyddyn Ariannol 2024/25, gan gompowndio'r effaith ad-dalu gronnol.

Hefyd, bydd rhewi'r trothwy yn rhyngweithio â phatrymau anghydraddoldeb ehangach yng Nghymru. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol, rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a gwahaniaethau a ysgogir gan lwybrau mewn cynnydd yn llywio pwy sydd fwyaf tebygol o orfod dechrau ad-dalu ar enillion is. Mae cynnydd is hyd at Lefel 3

ymhlith dysgwyr o aelwydydd tlotach, nifer llai o unigolion yn ymuno ag addysg uwch pan maent yn 18 oed, cyfraddau NEET uwch, a gwahaniaethau rhwng y ddau rywedd, yn cyfrannu at boblogaeth o raddedigion yng Nghymru lle caiff grwpiau dan anfantais eu gorgynrychioli mewn llwybrau enillion is. Golyga'r ffactorau strwythurol hyn y bydd nifer o'r un grwpiau sydd eisoes yn wynebu mynediad cyfyngedig a chyrhaeddiad is hefyd yn dioddef yr effeithiau ad-dalu cyfrannol mwyaf dros y tymor hir.

Yn achos rhai nodweddion gwarchodedig, megis rhywedd, anabledd, hil, ac aelwydydd incwm isel, ceir digon o dystiolaeth i ddangos gwahaniaethau clir mewn proffiliau enillion a phrofiadau yn y farchnad lafur, sy'n troi'n effeithiau ad-dalu cyfrannol mwy pan gaiff y trothwy ei rewi. Yn achos nodweddion gwarchodedig eraill, megis ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth, mae cyfyngiadau o ran data yn ein hatal rhag asesu'n hyderus yr effeithiau sy'n ymwneud yn benodol ag ad-dalu. Mewn achosion o'r fath, yr unig beth y gellir ei wneud yw dwyn casgliad ynglŷn ag effeithiau posibl ar sail tueddiadau economaidd-gymdeithasol ehangach. O'r herwydd, dylid dehongli'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun data gweinyddol cyfyngedig am nodweddion gwarchodedig mewn setiau data ad-dalu; golyga hyn fod yn rhaid dwyn casgliad ynglŷn â'r effeithiau gwahaniaethol a allai ddod i ran rhai grwpiau ar sail tystiolaeth ehangach y farchnad lafur.

Mae pwysau costau byw, sy'n syrthio drymaf ar bobl anabl, menywod, grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac aelwydydd incwm isel, yn cynnig cefndir pwysig. Er bod y cynnydd misol mewn ad-daliadau yn fach, mae rhewi'r trothwy yn cyfrannu at bwysau ariannol sydd eisoes yn cael ei deimlo'n anghymesur gan grwpiau sy'n fwy tebygol o ddefnyddio cymorth i fyfyrwyr ac sy'n fwy tebygol o ennill islaw'r trothwy (neu yn union uwchlaw'r trothwy).

Efallai y bydd yr effeithiau ar gyfranogi mewn addysg uwch yn gyfyngedig gan na fydd myfyrwyr yn gweld newidiadau'n syth yn eu had-daliadau; ac yn ôl tystiolaeth Llywodraeth y DU, hyd yn hyn nid yw'r penderfyniad i gyfranogi mewn addysg uwch wedi bod yn arbennig o sensitif i amodau ad-dalu hirdymor. Er y gallai rhewi'r trothwy gyfrannu at ganfyddiadau ehangach mewn perthynas â chostau cynyddol addysg uwch, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod canfyddiadau o'r fath yn arwain at leihad mawr mewn cyfranogi. O'r herwydd, ceir ansicrwydd ynghylch unrhyw effaith ymddygiadol ar gyfranogi yn y dyfodol, a gall yr effaith fod yn fach iawn.

Mae darparu grantiau nad oes yn rhaid eu had-dalu i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru tra maent yn astudio mewn addysg uwch ac, i raddau llai, gweithredu'r polisi canslo rhannol yng Nghymru, yn parhau i gynnig manteision pwysig i fenthycwyr o Gymru, gan liniaru rhywfaint ar yr effeithiau sydd ynghlwm wrth rewi trothwyon ad-dalu.

Serch hynny, deuir i'r casgliad cyffredinol bod rhewi'r trothwy yn gyfystyr â chymryd cam yn ôl, gan y byddai'r baich cyfrannol mwyaf yn syrthio ar y graddedigion hynny o Gymru sydd leiaf abl i ymdopi ag ef, yn cynnwys rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol dan anfantais a nifer o grwpiau gwarchodedig a gynrychiolir yn anghymesur mewn llwybrau cyflogaeth enillion is.

Cofnod o’r Effeithiau yn ôl Nodwedd Warchodedig

Oedran

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Benthycwyr ifanc a fydd yn dechrau ad-dalu yn eu 20au yw’r rhai sy’n wynebu’r cynnydd gydol oes mwyaf yn eu had-daliadau (oddeutu £2,400), gan fod rhewi’r trothwy yn effeithio ar eu cyfnod ad-dalu cyfan (sef 30 mlynedd). Ni fydd benthycwyr hŷn yn dioddef i’r un graddau, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn ad-dalu ers sawl blwyddyn, y rhai sydd â llai o flynyddoedd ad-dalu ar ôl, neu’r rhai sy’n economaidd weithgar am gyfnod byrrach.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

O gymharu â Lloegr, mae cyfran fwy o ddysgwyr Cymru yn ymuno ag addysg uwch yn ddiweddarach neu’n astudio’n rhan-amser. Mae 37% o fyfyrwyr Cymru yn astudio’n rhan-amser (o gymharu â 23% yn Lloegr), ac mae 43% o fyfyrwyr Cymru yn 25+ oed.

Dengys amcanestyniadau demograffig y bydd nifer y bobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn gostwng 12%- ac y bydd nifer y bobl ifanc 18 oed yn gostwng 13% rhwng 2030 a 2040. Wrth i garfannau’r dyfodol fynd yn llai ac yn hŷn, mae mwy o ddysgwyr o Gymru yn debygol o ymuno ag addysg uwch pan fyddant yn hŷn.

Ffynhonnell: Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau

Fel arfer, mae gan fyfyrwyr hŷn a dysgwyr rhan-amser enillion is neu enillion bylchog, gan gynyddu’r effaith gronnol sydd ynghlwm wrth rewi’r trothwy ad-dalu dros yr hirdymor.

Dengys gwaith modelu dosbarthiadol yn y DU gynnydd cyfartalog o £2,200 (7%), gan godi i oddeutu £2,400, yn achos y rhai a fydd yn dechrau ad-dalu pan fyddant yn 21-25 oed. Gweler tabl 7.

Tabl 7: Effeithiau dosbarthiadol allweddol y polisi arfaethedig ar garfan benthycwyr Blwyddyn Academaidd 2022/23, yn ôl rhyw ac oedran, ar ôl dechrau ad-dalu (Dyddiad Dechrau Ad-dalu Statudol)

Nodweddion (oedran ar y Dyddiad Dechrau Ad-dalu Statudol)	Cyfanswm yr ad-daliadau gydol oes (prisiau Blwyddyn Ariannol 25-26)				Cyfran y benthyciad a ad-delir yn llawn (prisiau Blwyddyn Ariannol 25-26)			Blynyddoedd tan ad-dalu'n llawn/canslo			Maint amcangyfrifedig y garfan
	Llinell sylfaen	Ar ôl y polisi	Newid (£)	Newid (%)	Llinell sylfaen	Polisi arfaethedig	Newid (pwynt canran)	Llinell sylfaen	Polisi arfaethedig	Newid (blynyddoedd)	
Pawb	£30,600	£32,700	£2,200	7%	59%	63%	4	30	30	0	417,600
Dynion	£32,800	£34,800	£2,100	6%	65%	69%	4	30	30	0	175,900
Menywod	£29,000	£31,200	£2,200	8%	55%	60%	4	30	30	0	241,700
<21 oed	£26,100	£27,100	£1,000	4%	84%	88%	3	29	28	-1	2,400
21-25 oed	£35,100	£37,400	£2,400	7%	67%	72%	5	30	30	0	289,600
26-30 oed	£24,000	£25,700	£1,700	7%	52%	55%	4	30	30	0	37,900
31-40 oed	£21,500	£23,600	£2,100	10%	42%	46%	4	30	30	0	46,400
41+ oed	£15,400	£16,800	£1,400	9%	29%	32%	3	30	30	0	41,300

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.
Cyfanswm y boblogaeth mewn perthynas â benthycwyr Cynllun 2 yw 4,334,300 (4.33 miliwn).

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Anabledd

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Fel arfer, mae pobl anabl yn dioddef diweithdra uwch, enillion is, a chostau byw hanfodol uwch, yn cynnwys gorfod gwario mwy ar drafnidiaeth, ynni a chyfarpar arbenigol. Yng Nghymru, mae graddedigion anabl yn wynebu bwlch cyflog o £1.75 yr awr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o aros gerllaw'r trothwy ad-dalu. O ganlyniad, efallai y bydd nifer o fenthycwyr anabl yn dioddef effeithiau byrdymor cyfyngedig, ond bydd y rhai sydd mewn cyflogaeth ac sy'n cael enillion gydol oes is yn fwy tebygol o wynebu cynnydd gydol oes cyfrannol uwch yn eu had-daliadau; mae hyn yn cyd-fynd â phatrymau a welwyd ymhlith benthycwyr incwm is yn fwy cyffredinol.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Ni cheir data gweinyddol cadarn sy'n ymwneud yn benodol ag enillion graddedigion Cymru yn ôl anabledd. Dengys tystiolaeth ehangach y farchnad lafur anweithgarwch a diweithdra uwch ymhlith graddedigion anabl, ynghyd ag enillion cyfartalog is ymhlith graddedigion anabl cyflogedig.

Ffynhonnell: 'Graduate Labour Market Statistics 2024', https://explore-education-statistics.service.gov.uk/data-tables/permalink/3f4a141f-87e5-4948-6805-08de1ade192d

Ffynhonnell: 'Graduate Labour Market Statistics 2020', https://explore-education-statistics.service.gov.uk/data-tables/permalink/87097cb7-fee5-40ba-8d45-5f0defc1f074

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, nad oes yn rhaid ei ad-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy. Sicrhau bod trefniadau canslo statudol yn cael eu rhoi ar waith pan na fydd benthycwyr yn ffit i weithio yn barhaol.

Ailbennu Rhywedd

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Oherwydd data cyfyngedig, nid yw'r effeithiau'n bendant. Ond yn achos unigolion y mae eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd ar eu cyfer pan gawsant eu geni, maent yn dioddef cyfraddau diweithdra a thlodi uwch, gan eu gwneud yn fwy tebygol o aros islaw'r trothwy ad-dalu, a thrwy hynny eu gwneud yn fwy tebygol o wynebu effeithiau byrdymor cyfyngedig. Yn achos y rhai sydd mewn cyflogaeth cyflog is, mae'n bosibl y byddant yn wynebu cynnydd gydol oes cyfrannol uwch yn eu had-daliadau, gan adlewyrchu patrymau a welwyd ymhlith grwpiau incwm isel eraill.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Ni cheir data gweinyddol cadarn ynglŷn ag enillion graddedigion Cymru yn ôl hunaniaeth rhywedd. Mae tystiolaeth ehangach yn dangos cyfraddau diweithdra uwch ymhlith pobl drawsryweddol ac anneuaidd.

Ffynhonnell: 'National LGBT Survey': https://www.gov.uk/government/publications/national-lgbt-survey-summary-report/national-lgbt-survey-summary-report

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Oherwydd data cyfyngedig, nid yw'r effeithiau'n bendant. Gall enillion is a thorri ar yrfaoedd yn ystod absenoldeb rhiant symud mamau newydd islaw'r trothwy ad-dalu, dros dro, gan leihau eu had-daliadau yn y tymor byr ond gan arwain o bosibl at ymestyn y cyfnod ad-dalu yn sgil enillion gydol oes is. Gallai costau cynyddol gofal plant a chynnydd mewn costau aelwydydd ddwysáu'r effeithiau hyn.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Ni cheir data gweinyddol cadarn ynglŷn ag enillion graddedigion Cymru yn ôl statws beichiogrwydd neu famolaeth. Gellir dwyn casgliadau ynglŷn â'r effeithiau disgwyliedig ar sail gwahaniaethau seiliedig ar rywedd yn y farchnad lafur a seibiannau gyrfa arferol sy'n gysylltiedig â rhoi genedigaeth a magu plant yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy. Mae trefn ad-dalu sy'n ddibynnol ar incwm yn sicrhau y bydd ad-daliadau'n cael eu gohirio'n awtomatig yn ystod cyfnodau pan fydd unigolion yn cael incwm is.

Hil

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Nid yw'r effeithiau'n bendant oherwydd oedi yn y data. Mae cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi cymharol, ac mae graddedigion Du yn fwy tebygol o ennill islaw'r trothwy ad-dalu yn gynnar yn eu gyrfaoedd. Mae hyn yn lleihau'r effeithiau ad-dalu byrdymor ond mae'n cynyddu effeithiau cyfrannol hirdymor, gan mai enillwyr 'isel i ganol' a fydd yn gweld y cynnydd canrannol mwyaf o dan unrhyw rewi.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Dengys tystiolaeth fod graddedigion Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol o ennill islaw'r trothwy ad-dalu ymhen 5-10 mlynedd ar ôl graddio. Golyga hyn fod yr effeithiau byrdymor yn gyfyngedig, ond mae'r cynnydd cyfrannol hirdymor mewn ad-daliadau yn uwch ar gyfer y grŵp hwn.

Mae data LEO 2022-23 (a ddefnyddiwyd ar gyfer Tabl 8) yn dangos patrymau mewn enillion yn ôl grwpiau ethnig, cefndir economaidd-gymdeithasol a rhanbarth; ac er bod y setiau data ar ei hôl hi braidd, disgwylir i'r tueddiadau sylfaenol aros yr un fath.

Tabl 8: Cyfran y graddedigion gradd gyntaf sydd â'u domisil yng DU ac sy'n ennill llai na £26,800 yn ôl ethnigrwydd ymhen blwyddyn, pum mlynedd a deg mlynedd ar ôl graddio ym mlwyddyn dreth 2023-24. Cwmpas – Graddedigion darparwyr addysg uwch y DU sydd mewn cyflogaeth barhaus yn unig ym mlwyddyn dreth 2023-24.

Blynyddoedd ar ôl graddio	Band incwm	Gwyn	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Grwpiau Cymysg / Amlethnig	Arall	Ni wyddys	Pawb
Blwyddyn ar ôl graddio	Hyd at £26,799	54%	52%	50%	56%	53%	50%	53%
5 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	29%	29%	33%	30%	32%	33%	29%
10 mlynedd ar ôl graddio	Hyd at £26,799	26%	26%	28%	25%	29%	29%	26%

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Lywodraeth y DU.

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Crefydd, Cred a Dim Cred

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Dengys tystiolaeth fod canlyniadau cyflogaeth ac enillion yn amrywio ar draws grwpiau crefyddol. Mae unigolion sy'n uniaethu fel Mwslimiaid yn llawer llai tebygol o fod mewn cyflogaeth, gan eu gwneud yn fwy tebygol o aros islaw'r trothwy ad-dalu a phrofi effeithiau byrdymor cyfyngedig. Hefyd, efallai na chaiff myfyrwyr Mwslimaidd eu cynrychioli'n ddigonol ymhlith benthycwyr oherwydd absenoldeb cyllid myfyrwyr sy'n cydymffurfio â chyfreithiau Sharia, gan leihau mwy fyth ar y nifer a fydd yn dioddef effeithiau uniongyrchol.

I'r gwrthwyneb, mae unigolion sy'n uniaethu fel Iddewon ymhlith y rhai sy'n cael y cyflog cyfartalog mwyaf fesul awr, gan olygu eu bod yn fwy tebygol o ennill uwchlaw'r trothwy ad-dalu ac wynebu cynnydd gydol oes mwy yn eu had-daliadau pe bai'r trothwy'n cael ei rewi.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Ni cheir data gweinyddol cadarn ynglŷn ag enillion graddedigion Cymru yn ôl crefydd neu gred. Dengys y dystiolaeth sydd ar gael wahaniaethau ar draws grwpiau, gyda rhai grwpiau'n fwy tebygol o fod islaw'r trothwy ad-dalu.

Ffynhonnell: 'Religion, education and work in England and Wales: February 2020': https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/articles/religioneducationandworkinenglandandwales/february2020

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Rhyw/Rhywedd

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Bydd rhewi'r trothwy yn esgor ar gynnydd gydol oes cyfrannol mwy mewn ad-daliadau i fenthycwyr benywaidd (oddeutu 8%) o gymharu â dynion (6%) gan fod menywod yn cael enillion gydol oes cyfartalog is. Hefyd, mae menywod bron i 50% yn fwy tebygol o weithio mewn gwaith sy'n talu cyflog isel, a bydd y cynnydd mewn costau gofal plant a chostau aelwydydd yn dwysáu mwy fyth ar yr effeithiau ar incwm gwario.

Yn gyffredinol, mae benthycwyr gwrywaidd yn cael enillion cyfartalog uwch ac o'r herwydd byddant yn ad-dalu mwy o arian yn gyffredinol (bydd dynion yn ad-dalu oddeutu £34,800 a bydd menywod yn ad-dalu oddeutu £31,200).

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Dengys gwaith modelu dosbarthiadol y daw cynnydd cyfrannol uwch i ran menywod mewn perthynas â'u had-daliadau gydol oes, a hynny oherwydd enillion cyfartalog is, er y bydd dynion yn ad-dalu mwy o arian yn gyffredinol (gweler tabl 7).

Mae data cyfranogi ar gyfer Cymru yn dangos bod dynion yn llai tebygol o gamu ymlaen i addysg ôl-orfodol ac addysg uwch. Yng Nghymru y ceir y bwlch rhywedd mwyaf trwy'r DU mewn perthynas â chyfranogi mewn addysg uwch, a dynion Cymru sydd â'r cyfraddau isaf trwy holl wledydd y DU mewn perthynas â dilyn addysg uwch. O ganlyniad, mae menywod yn fwy tebygol o ymuno â'r system ad-dalu, ond mae eu henillion is yn golygu y gallent wynebu effeithiau ad-dalu cyfrannol mwy, gan gadarnhau'r gwaith modelu dosbarthiadol.

Ffynhonnell: Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu).

Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Ni nodir unrhyw effeithiau sy'n ymwneud yn benodol ag ad-dalu. Ond daw cyfraddau tlodi uwch i ran unigolion LHDTC+, ynghyd â mwy o ansicrwydd o ran tai, a rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu – sef elfennau sy'n dwysáu pwysau costau byw.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Awgryma peth tystiolaeth fod yna wahaniaethau rhwng enillion unigolion heterorywiol ac enillion unigolion hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol – sef gwahaniaethau a ddaw o dan ddylanwad statws partneriaeth yn hytrach na chyfeiriadedd rhywiol ar ei ben ei hun, o bosibl.

Ffynhonnell: 'Sexual orientation and earnings: How being in a partnership matters': Sexual orientation and earnings | VOX, CEPR Policy Portal (voxeu.org)

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Nid yw'r effeithiau'n bendant oherwydd data cyfyngedig.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Ni cheir data gweinyddol cadarn ynglŷn ag enillion graddedigion Cymru yn ôl statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Efallai fod rhai amrywiadau mewn enillion sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol yn ymwneud yn anuniongyrchol â statws partneriaeth.

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Plant a Phobl Ifanc

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Nid yw benthycwyr dan 18 oed yn talu ad-daliadau; o'r herwydd, ni ddisgwylir unrhyw effaith.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Mae darpariaethau statudol yn gohirio ad-daliadau hyd nes y bydd unigolion wedi cyrraedd 18+ oed.

Yn 2023/24:

- Roedd 45 o israddedigion amser llawn dan 18 oed, a oedd â'u domisil yng Nghymru, wedi cofrestru gyda darparwyr yng Nghymru neu Loegr.
- Roedd 145 o israddedigion rhan-amser dan 18 oed, a oedd â'u domisil yng Nghymru, wedi cofrestru gyda darparwyr yng Nghymru neu Loegr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2023/24

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Incwm Isel

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?

Aelwydydd incwm isel a fydd yn profi'r cynnydd cyfrannol mwyaf o dan unrhyw rewi. Mae pwysau costau byw, megis cynnydd mewn prisiau bwyd, ynni a thrafnidiaeth, yn fwyaf acíwt ar gyfer y grŵp hwn. Mae Cymru yn wynebu cyfradd tlodi cymharol o 22%, gan ddwysáu'r effeithiau ar incwm gwario.

Y rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)

Dengys gwaith modelu dosbarthiadol gynnydd cyfrannol o 18% ar gyfer degraddau incwm isel ac incwm canol, tra mae'r enillwyr uchaf yn gweld cynnydd o oddeutu 1% (gweler Tabl 3).

Sut byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?

Parhau i roi cymorth blaengar i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn addysg uwch (e.e. grantiau cynhaliaeth nad oes yn rhaid eu had-dalu). Gweithredu'r polisi canslo rhannol er mwyn lleihau beichiau ad-dalu tymor hwy.

Hawliau Dynol

Ni fydd rhewi'r trothwy yn cyfyngu ar fynediad at addysg na chymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Bydd y model ad-dalu sy'n ddibynnol ar incwm yn sicrhau y bydd

benthycwyr yn parhau i allu elwa ar hawliau a mesurau diogelu ariannol. Ni nodir unrhyw bryderon ynghylch hawliau dynol.